# Crynodeb Gweithredol

Cafodd y papur ymgynghori sy'n nodi ein cynigion ar gyfer rheoliadau Cynllun Pensiwn Barwnol (JPS) 2022 ei gyhoeddi ar 23 Gorffennaf 2021. Roedd y papur yn gofyn am sylwadau ar lunio'r cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig hwn, a fydd ar agor ar gyfer croniadau yn y dyfodol o fis Ebrill 2022 ymlaen, yn amodol ar amser seneddol a chymeradwyo'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Bwriad JPS 2022 yw cyflawni'r ymrwymiad a wnaeth y Llywodraeth i ddatblygu ateb tymor hir sy'n seiliedig ar bensiynau i'r problemau recriwtio a chadw difrifol a nodwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB) yn ei Adolygiad Mawr o'r Strwythur Cyflogau Barnwrol, a gyhoeddwyd yn 2018. Roeddem yn cynnig y byddai llawer o nodweddion JPS 2022 yn cyd-fynd â phrif egwyddorion diwygiadau pensiwn 2015, gan gadw rhai elfennau allweddol o'r cynllun pensiwn a nodir yn Neddf Pensiynau Barwnol ac Oedran Ymddeol 1993 (JUPRA).

Cawsom gyfanswm o 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys chwe gan gymdeithasau barnwrol a chymdeithasau gydag aelodau heb fod yn rhai cyfreithiol. At ei gilydd, roedd yr ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud i roi cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig ar waith, ond roedden nhw'n tynnu sylw at rai meysydd a oedd yn peri pryder. Roedd hyn yn cynnwys nifer o sylwadau a oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd rhai o nodweddion JPS 2022 mor ddeniadol â rhai JUPRA, na Chynllun Pensiwn Barnwrol 2017 (FPJPS) sy'n derbyn ffi. Rydyn ni wedi rhoi sylw i'r rhain yn eu tro isod.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ychwanegol at ymgynghoriad blaenorol ar ddyluniad arfaethedig y cynllun a gynhaliwyd yn haf 2020. Cawsom 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, gan gynnwys 16 gan gymdeithasau barnwrol (sy'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r farnwriaeth). Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol am lawer o nodweddion arfaethedig y cynllun, ac fe'u disgrifiwyd yn aml fel gwelliant sylweddol i'r Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd (NJPS), a gyflwynwyd yn 2015.

Gan ystyried yr ymatebion o'r ddau ymgynghoriad, rydyn ni'n bwriadu rhoi JPS 2022 ar waith yn unol â'r cynigion polisi sydd wedi'u nodi yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Rydyn ni'n credu bod yr ymatebion rydyn ni wedi'u cael o'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r rheini o'r ymgynghoriad blaenorol, yn rhoi cefnogaeth gadarn i ni fwrw ymlaen â'r broses o roi JPS 2022 ar waith. Maen nhw hefyd yn cadarnhau ein barn y bydd yn helpu i gyflawni ein prif amcan o ddatrys y materion recriwtio a chadw difrifol a nodwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, a hynny gan fod yn deg â'r trethdalwr a bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.